# y dinesydd

Gorff./Awst 1997 PAPUR BRO DINAS CAERDYDD A'R CYLCH Rhif 229


# Cadair a Thlws i Gaerdydd!

Yn y rhifyn diwethaf rhestrwyd yr enillwyr llwyfan o Gaerdydd a'r cyffiniau yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd eleni. Bu rhai o'r cylch yn llwyddiannus yn y cystadlaethau cyfansoddi hefyd.

Daeth Adran Ysgol Uwchradd y Bont-faen yn drydydd am waith ar dâp sain i ddysgwyr (15-19 oed); daeth Dewi Hall Evans o Ysgol Sant Curig yn ail am lunio ysgrif (dan 8 oed); daeth Gwenfair Michael o Ysgol Gyfun Glantaf yn ail am lunio cerdd (oedran Blynyddoedd 12 a 13) ac yn ail am lunio cyfres o lythyron (dan 19 oed); a daeth 'Y Dinasyddion' o Adran Ysgol Gyfun Glantaf yn ail yn y gystadleuaeth llunio cylchgrawn/papur newydd (dan 25 oed).



Nia Môn – bardd cadeiriol Eisteddfod Islwyn
*Llun: Robin Griffith*



Ceiri Torjussen – enillydd Tlws y Cerddor
*Llun: Robin Griffith*

Ond y ddau amlycaf wrth gwrs yw Nia Môn, sy'n gweithio i Gwmni Teledu Opus, a enillodd Gadair yr Eisteddfod â'i cherdd 'Yfory', a Ceiri Torjussen o Heol Wen, Rhiwbina, a enillodd Dlws y Cerddor. Rhaid bod Heol Wen yn stryd gerddorol iawn, oherwydd un arall o'r stryd honno, Paul Jones, a ddaeth yn ail ar yr unawd dan 25 oed.

Llongyfarchiadau cynnes i bawb!

# Anrhydeddau'r Orsedd

## Urdd Ofydd er Anrhydedd

Mae nifer o bobl dalgylch *Y Dinesydd* i gael eu hurddo'n aelodau o'r Urdd Ofydd er Anrhydedd yn yr Orsedd yn Eisteddfod Genedlaethol Meirion a'r Cyffiniau. Un ohonynt yw **Mark Aizlewood**, Casnewydd, sydd wedi dysgu'r Gymraeg yn ail iaith yn arbennig o dda ac yn gyn-chwaraewr gydag Adar Glas Parc Ninian. Ef oedd enillydd Tlws y Dysgwyr y llynedd.

Mae'n drawiadol hefyd fod ei athro, **John Albert Evans**, brodor o Fwlch-llan ac un o'n dinasyddion amlycaf a mwyaf prysur hefyd yn cael ei anrhydeddu. Does ond gobeithio y bydd John yn gallu bod yno gan ei fod yn teithio byd yn gyson i hyrwyddo buddiannau'r iaith ac wedi bod yn cenhadu drosti ers dros ugain mlynedd.

I **Robin Griffith**, Creigiau, y mae'r *Dinesydd* yn ddyledus am nifer o'i luniau, ac mae ef hefyd yn cael ei gydnabod am ei gyfraniad i'r bywyd diwylliannol Cymraeg. Mae wedi bod yn gefn cadarn i'r papur bro trwy'r blynyddoedd a hefyd i'r Cylch Llyfryddol a Chymdeithas Ddrama Capel y Crwys ymhlith llu o achosion da eraill. Cymwynaswr parod a diffwdan.

Un o fois y BBC fu **Wyndham Richards** (Pontarfynach gynt) ers blynyddoedd; un arall sy'n cael anrhydedd gwir haeddiannol. Rydyn ni i gyd yn gyfarwydd â gwrando ar ei lais hyfryd ar yr awyr. Bu'n gyfrifol am y rhaglen 'Wythnos i'w Chofio' am flynyddoedd - gan gynhyrchu dros fil o rifynnau.

Mae **Anne Roberts**, Llandeilo, wedi gadael y ddinas ers tro i fwynhau awelon iach ardal Llandeilo, ond fe fu Anne am flynyddoedd yn athrawes yn Ysgol Gymraeg y Barri a bu'n gyfrifol am gychwyn ffrwd Gymraeg yn Ysgol Gwaelod-y-garth ac am gychwyn adran o'r Urdd yno. Bu'n gefn am flynyddoedd i fywyd Cymraeg y ddinas ac mae'n dda ei gweld yn cael ei hanrhydeddu.

Mae'r **Parchedig D. Haydn Thomas** wedi bod yn barod iawn i anfon cyfraniadau ynghylch digwyddiadau aml Salem Treganna i sylw'r *Dinesydd*; hyn ynghanol ei fywyd prysur dros sawl achos da. Bu'n Ysgrifennydd Lles yr Henoed yng Nghymru ac yn Gyfarwyddwr Cyngor Henoed Cymru. Ef a sefydlodd gangen gyntaf Cymru o 'Brifysgol y Drydedd Oes'. Bu'n bugeilio Eglwys Salem, Treganna, er 1977 ac yn 1991 fe'i sefydlwyd mewn gofalaeth newydd yn cynnwys yn ogystal Penuel a'r Drindod Sanctaidd, Y Barri.

>>tud 4

**Yn atodiad i rifyn Medi cyhoeddir cyfeiriadur i weithgarwch Cymraeg Caerdydd a'r cyffiniau a fydd yn cynnwys manylion am gymdeithasau a sefydliadau. Os ydych am gynnwys manylion am eich cymdeithas chi anfonwch rhag blaen at Julie Jones, 28 St Francis Road, Yr Eglwys Newydd (01222 620618).**

# Y Dinesydd

**Gorff./Awst 1997, Rhif 229. ISSN 1362-7546**

Cyhoeddir *Y Dinesydd* gan Bwyllgor *Y Dinesydd*.
Fe'i cysodir gan PPS, 139 Station Road, Ystum Taf, Caerdydd, a'i argraffu gan Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd.

**Anfonwch ddefnyddiau ar gyfer rhifyn Medi at un o'r gohebwyr canlynol erbyn 15 Awst:**

**Newyddion y Fro:**
Mr Garwyn Davies, 27 Baron Road, Penarth (Ffôn: 708253).
**Newyddion o'r Eglwysi:** Y Parchedig Gwilym Dafydd, 4 Coryton Rise, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd (Ffôn: 626811).
**Newyddion Ysgolion Cynradd:**
Mr B. D. Harries, 6 Lakeside, Caerdydd (Ffôn: 756562).
**Newyddion Ysgol Glantaf:** Mrs S.E. Williams, 23 Kelvin Road, Y Rhath, Caerdydd (Ffôn:490687).
**Newyddion Chwaraeon:** Mr Thomas Davies, 41 Highfields, Caerdydd (Ffôn/Ffacs: 564540).
**Gweithgareddau Dysgwyr:** Mr Gareth Kiff, Ty'r Cymry, 11 Heol Gordon, Caerdydd (Ffôn: 486469/755475):
**Newyddion Cyffredinol:** Mr W. J. Jones, 46 Heol Crystalwood, Caerdydd (Ffôn: 756282; Ffacs: 578106).

**Anfonwch unrhyw ymholiadau golygyddol at:**
Mrs Linda Thomas, 3 Llwynfedw Gardens, Llwynbedw, Caerdydd (Ffôn: 693302).

**Anfonwch unrhyw sylwadau am ddosbarthu at:**
Mr Robin Jones, 1 Kings Road, Radur, Caerdydd (Ffôn: 842929).

## HYSBYSEBION

Mae'r *Dinesydd* yn ffordd ddelfrydol o hysbysebu ac mae hysbysebion yn hanfodol i gynnal y papur. Dylai pawb sydd am hysbysebu gysylltu â:

Miss Catrin Rowlands, 42 Carling Court, Croes Cwrlwys, Caerdydd CF5 4PH (Ffôn: 01222 598243).

## CYFRANIADAU ARIANNOL

Mae ein trysorydd, Mr Rheon Thomas, 37 Velindre Road, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd (Ffôn: 521325) yn croesawu unrhyw gyfraniad bob amser. Cofiwch fod *Y Dinesydd* yn dibynnu am ei barhad ar gyfraniadau'r sawl sy'n ei ddarllen.

## FFURFLEN CYFRANNU

Amgaeaf rodd o £__________ fel cyfraniad at gynnal *Y Dinesydd*.

Enw: ..........................................................................

Cyfeiriad: ....................................................................

............................................ Côd Post: ...................

Rhif Ffôn: ....................................................................

Anfoner y ffurflen hon at Mr Rheon Thomas, 37 Velindre Road, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd.

## FFURFLEN TANYSGRIFIO

Amgaeaf danysgrifiad blwyddyn o £15 er mwyn derbyn *Y Dinesydd* drwy'r post yn rheolaidd.

Enw: ..........................................................................

Cyfeiriad: ....................................................................


............................................ Côd Post: ...................

Rhif Ffôn: ....................................................................

Anfoner y ffurflen hon at Mr Rheon Thomas, 37 Velindre Road, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd.

## CROESAIR AP LEWSYN

**Rhif 161** **Gorff./Awst 1997**



**AR DRAWS**

1. Byddai un gwael yn canfod. (6)
4. Dylai C fod yn ofalus pan fydd wrthi yn crasu. (6)
9. Creaduriaid trwm, blewog ac afrosgo. (4)
10. Llwybr byr at wylltineb difeddwl a geir yma. (10)
11. Symudwch at ford i drin y mater. (6)
12. Er bod E ac A yn ddau ffel, eto daw eu beiau yn amlwg o symud yn nes. (8)
13. Eu teyrnasiad nhw a ddaeth â Christnogaeth i Gymru. (9)
15. Mae darn o syrcyn yn ddigon i wneud dilledyn arall. (4)
16. Bu Sion a Siân draw dros y cyfandir. (4)
17. Fe roes Wiliam grym i'r rhai fu'n gorthrymu. (9)
21. Agoriadau y goleuni! (8)
22. Ai dyma'r noson orau i weld y blaned fwyaf? (3,3)
24. Blodwen oedd ei henw i Hywel. (10)
25. Fel hyn y mae'r afon dawel yn llifo. (4)
26. Y sbeis twym hwn yw gwreiddyn y mater. (6)
27. Mae'n flin gennyf am ei frad. (6)

**I LAWR**

1. Y llinellau fu'n cario'r neges, ond gellir eu hepgor bellach. (7)
2. Y fan bellaf heibio i Lanfair Mathafarn. (5)
3. Byddwn yn achub. (7)
5. Rwyf yn adnabod. (6)
6. Lles eu criw oedd eu hamcan wrth fod mor ysmala. (9)
7. Yn bwrw anfri. (7)
8. Yr hyn a ddarogenir. (13)
14. Fe rennir yr ystad rhyngddynt. (9)
16. Rhoddais ddatrysiad i'r cliw. (7)
18. Go brin y byddai'r enw lluosog yn gweddu i breswylwyr Ystradmynach. (7)
19. Gwneud yn gyson, neu ar gyfer achlysur arbennig. (7)
20. Ychwanegai Dai ato. (6)
23. Mae'n rhaid cael o leiaf un ymhob gair. (5)

**Cystadleuaeth Rhif 160**

Daeth saith ateb i law. Roedd rhyw fân wall mewn tri ohonynt, a'r pedwar arall yn hollol gywir. Yr enw a dynnwyd i dderbyn tocyn llyfrau oedd eiddo Heledd Hall, 14 Wyndham Road, Treganna, ac mae'r tocyn eisoes ar ei ffordd iddi. Daeth atebion cywir hefyd oddi wrth: Marged Davies, Llandaf; E. Haydn Jones, Rhiwbina; a Huana Simpson, Y Bont-faen.

**Cystadleuaeth Rhif 161**

Enw a chyfeiriad ar ymyl y croesair i'w hanfon at: Ap Lewsyn, 13 Rannoch Drive, Cyncoed erbyn 15 Awst os gwelwch yn dda.

Cydnabyddir cefnogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg a Chyngor y Celfyddydau i'r cyhoeddiad hwn.

## Diolch

Diolch i'r canlynol am eu rhoddion tuag at goffrau'r *Dinesydd*: Cymdeithas Gymraeg Dinas Powys (£25); Eglwys Bethel, Penarth (£25); Cylch Llyfryddol Caerdydd (£25); Eglwys Tabernacl, Y Barri (£50).

## Castell Pen-hw

Castell Pen-hw, ar yr A48 rhwng Casnewydd a Chasgwent, yw'r castell hynaf yng Nghymru a phobl yn dal i fyw ynddo. Y mae'r teithiau 'Walkman' o amgylch y castell wedi ennill gwobrau yn y gorffennol, ac y mae rhai ar gael erbyn hyn trwy gyfrwng y Gymraeg i blant ac oedolion. Am ragor o wybodaeth am y teithiau, ffoniwch 01633-400800.

## SIEC-*Mêt*

Syniad ardderchog gan Fwrdd yr Iaith oedd datblygu SIEC-*Mêt*, dyfais syml ond effeithiol sy'n cyfieithu symiau o arian i Gymraeg ysgrifenedig, ac sy'n cymryd ei lle yn dwt y tu mewn i lyfr sieciau. Bydd yn gymorth i siaradwyr Cymraeg a dysgwyr wrth iddynt ysgrifennu sieciau yn y Gymraeg ac yn gymorth i rai di-Gymraeg sy'n derbyn y sieciau i wirio'r swm ysgrifenedig. Datblygwyd y ddyfais gyda chymorth a chefnogaeth banciau'r Stryd Fawr, ac y mae i'w chael yn rhad ac am ddim oddi wrth Barclays, Lloyds, TSB, Midland a NatWest.

## Cryno Ddisg Newydd Côr Poliffonic Caerdydd

I'r sawl sy'n ei nabod, mae Mervyn Burtch yn ddyn swil ac yn hapus gyda gwydraid o win yn ei law yn siarad am gerddoriaeth, llên a chriced. Fe'i gwelir yn aml yng Ngerddi Soffia yn gwylio Clwb Criced Morgannwg; fe ddywed wrthych mai Gerddi Soffia yw ei ail gartref. Cymro di-Gymraeg yw o Ystradmynach. Mae wedi cyfansoddi llawer o ddarnau ar gyfer offeryn a chôr, yn enwedig i blant.

Am y tro cyntaf, gellir gwrando ar ei gerddoriaeth yn y cartref drwy gyfrwng cryno ddisg Côr Poliffonic Caerdydd. Yn y C.Dd. - 'Fi yw Dewi' - cawn Mervyn Burtch ar ei orau'n cyfansoddi ar gyfer lleisiau. Ymhlith y darnau y mae'r *Missa Brevis* a gomisiynwyd gan aelod o'r côr, Peter Jones, er cof am ei dad. Rhoddwyd y datganiad cyntaf o'r gwaith yn Eglwys Gadeiriol Llandaf ym mis Mawrth 1996.


Fe allwch brynu'r C.Dd. drwy ffonio Arnold Tellem (01656-741765), Howard Goodfellow (01222-707827) neu unrhyw aelod o Gôr Poliffonic Caerdydd.

## Cymru, America - a Chaerdydd!

Cynhelir wythnos Dreftadaeth Gymreig yn Albany, Efrog Newydd rhwng 20 a 27 Gorffennaf. Ymhlith y tiwtoriaid Cymraeg bydd John Albert Evans, Llys-faen a Ken Kane, Llanisien. Yna, bydd Margaret Williams y gantores yn ymddangos mewn cyngherddau yn ystod penwythnos Cymanfa Ganu Milwaukee, Wisconsin rhwng 28 a 31 Awst. Bydd mewn cwmni da gan y bydd Dafydd Iwan, Band Pres Trefor, Côr y Traeth, Elinor Bennet a Mari Morgan yno hefyd.

**Llongyfarchiadau** i Angharad Mair, un o gyflwynwyr S4C ar gael ei hethol yn un o dîm Prydain fydd yn cystadlu yn ras farathon y byd yn Athen yn yr haf.

**DATRYSIAD CROESAIR MEHEFIN**



## Calendr y Dinesydd

**26 Gorffennaf-1 Awst**
Cwrs Cymraeg San Dunwyd i ddysgwyr o bob lefel, dan nawdd Adran Addysg Barhaol Prifysgol Cymru Caerdydd. Manylion pellach: Dr Gwen Awbery (01222-874831).

**Iau, 11 Medi**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd: 'Gwerthuso'r Gwerslyfrau' gan Havard Gregory, yng nghapel Ebeneser, Heol Siarl, am 7.30 p.m.

**Llun, 29 Medi**
Cell Cymdeithas y Cymod: Adroddiad gan Nia Rhosier ar Ail Gynhadledd Ecwmenaidd Ewrop, yng nghapel Bethel, Rhiwbina am 10.00 a.m.

*Os ydych am gynnwys digwyddiadau yn y Calendr, anfonwch y manylion at: E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 2AJ.*

Annwyl Olygydd,

**Cymreigrwydd Hanesyddol Caerdydd**

Hoffwn wneud ychydig o sylwadau ar adroddiad D. Gwyn Jones (*Dinesydd* Mai) ynglŷn â'm darlith ddiweddar i'r Cylch Llyfryddol.

Yn y ddarlith, fe wnes i herio'r gred gyffredinol taw lle Seisnigaidd fu Caerdydd o tua 1100 ymlaen. Yn anffodus, yn lle 1100, ymddangosodd y flwyddyn 1400 yn yr adroddiad. Yn wir, oddi ar 1400, yn sgîl Rhyfel Rhyddid Glyndŵr, dechreuodd y broses raddol o Gymreigio'r trefi Eingl-Normanaidd, megis Caerdydd.

Ga i hefyd daflu goleuni ychwanegol ar fater enwau lleoedd. Wrth gyfeirio at dystiolaeth enwau lleoedd y ddeunawfed ganrif, soniais am yr arferiad o gofrestru tafarndai a heolydd dan enwau Saesneg, ac o ganlyniad, i ni heddiw gamddehongli hyn fel arwydd o Seisnigrwydd y bobl. Yng Nghaerdydd, yr adeg honno, cafwyd pobl ag enwau megis Dic y Fuwch, David Morgan y Brenin a William Ceiliog Du, i gyd yn cyfeirio, mae'n debyg, at dafarnwyr y 'Red Cow', y 'King's Head' a'r 'Black Cock'. Fe ddaw tystiolaeth bellach o enwau caeau lle ceir 'Cae'r Efail Ddwst' a 'Cae'r Brenin' fel enwau'r caeau y tu ôl i'r 'Dusty Forge' yn Nhrelái a'r 'King's Castle' yn Nhreganna.

Mae'n amhosibl dweud ai yn Gymraeg ynteu Saesneg yr enwyd strydoedd Caerdydd ar lafar er bod y cofnodion swyddogol bron i gyd yn cyfeirio at enwau'r strydoedd yn Saesneg. Serch hynny, mae bodolaeth ambell gofnod yn nodi enghreifftiau megis Heol y Cawl, Heol y Grange, Heol Fidlas a Heol y Bryndon (Y Sblot) yn awgrymu o bosibl bod y trigolion yn defnyddio enwau Cymraeg ar lafar am strydoedd oedd yn dwyn enwau Saesneg yn swyddogol.

Fe ddaw tystiolaeth gryfach byth am Gymreigrwydd Caerdydd wrth ystyried achosion athrod (*slander*) yn yr ardal yn ail hanner y ddeunawfed ganrif. Fe welir bod deuparth ran o'r cant a hanner o achosion yng Nghaerdydd yn deillio o bobl yn difenwi ei gilydd yn y Gymraeg. Pan ystyrir ar wahân y plwyfi y tu fa's i hen furiau'r dref, megis Y Rhath a Llandaf, fe welir bod bron cant y cant o'r achosion athrod ynddynt wedi eu seilio ar eiriau athrodus yn y Gymraeg.

*Owen John Thomas*

**I gyd-daro** â Gŵyl Ifan eleni, agorwyd arddangosfa arbennig yn yr Amgueddfa Werin yn Sain Ffagan sy'n adrodd, yn ddifyr ac yn ddiddorol, hanes dawnsio gwerin yng Nghymru dros y canrifoedd. Enw'r arddangosfa yw 'Troed yn Ôl a Throed Ymlaen', a bydd yn parhau tan ddechrau 1998.

Parhad o dudalen 1

## Urdd Derwydd er Anrhydedd

Mae nifer sydd â chysylltiad â chylch *Y Dinesydd* yn cael eu derbyn i'r Urdd Derwydd hefyd.

Dyw'r **Athro Roy Evans**, Bangor, (gynt o Gwmcou ger Castellnewydd Emlyn) ddim yn byw yng Nghaerdydd mwyach ond bu'n ddarlithydd ym Mhrifysgol Cymru, Caerdydd am chwarter canrif. Mae wedi ennill clod rhyngwladol am ei waith ym myd Peirianneg. Mae'n Eisteddfodwr brwd.

Gŵr â'i wreiddiau yng Nghwm Gwendraeth yw **J. Wynford Evans**. Bu'n Gadeirydd Cwmni Trydan De Cymru a bu'n gyfrifol am Gymreigio cryn dipyn ar y sefydliad hwnnw. Sicrhaodd bod y Cwmni'n un o brif noddwyr yr Eisteddfod Genedlaethol.

Brodor o Fachynlleth yw **Wyn Rees Jones**, Llancatal, Bro Morgannwg. Ar hyn o bryd ef yw Dirprwy Gyfarwyddwr Rhanbarthol Banc Barclay yng Nghymru ynghyd â bod yn Gyfarwyddwr sector bersonol y banc. Mae wedi gofalu bod y banc yn noddi'r Eisteddfod Genedlaethol ers blynyddoedd.

Byd y gân yw byd **Terence Lloyd** sydd wedi dysgu'r Gymraeg yn ail iaith a 'chroesi'r bont' ers blynyddoedd. Mae'n adnabyddus trwy Gymru fel cyfeilydd medrus ac fel Beirniad Cerdd y Brifwyl. Ef yw Cadeirydd Panel Sefydlog Cerddoriaeth yr Eisteddfod Genedlaethol.

Bangor yw cartref **Gwilym Owen**, un o'n newyddiadurwyr mwyaf craff, erbyn hyn, ond bu'n ddinesydd am flynyddoedd pan oedd yn dal swyddi pwysig yn Bennaeth Newyddion a Materion Cyfoes gyda HTV a'r BBC.

**Bu farw** Karen, gwraig y chwaraewr rygbi Jonathan Davies, Llandaf, yn 34 oed. Estynnwn ein cydymdeimlad iddo ef, y plant a'r teulu ehangach.

**Bu farw** Glenys Hughes, cyn-organydd Tabernacl, Yr Ais, ac Ararat, Yr Eglwys Newydd. Hanai o Ben-y-graig, Rhondda. Cydymdeimlwn â'r teulu.

## Tri brawd cerddorol



Y tri brawd – Jonathan, Iestyn a Selyf Shapey

Trawiadol oedd gweld tri brawd o Gaerdydd ymhlith enillwyr cystadlaethau cerddorol Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd eleni. Cafodd Jonathan Shapey yr ail wobr yng nghystadleuaeth yr unawd llinynnol 15-19 oed; ei frawd Iestyn oedd yr ail yng nghystadleuaeth yr unawd chwythbrennau 12-15 oed; a daeth y brawd ieuengaf, Selyf, yn drydydd yng nghystadleuaeth yr unawd llinynnol dan 12 oed. Mae'r tri yn weithgar iawn ym myd cerdd, ac yn perfformio mewn grŵp o'r enw 'Teulu' gyda'u mam, Delyth – y bechgyn yn cyfeilio a'u mam yn canu. Bydd Iestyn yn canu'r ffliwt gyda Cherddorfa Genedlaethol Plant Prydain Fawr yr haf hwn. Pob dymuniad da i'r tri at y dyfodol!

**Gwnaeth** Les ac Alwen Bowker, o Faerun (*Marshfield*) ger Caerdydd, gymwynas fawr ag Eisteddod Genedlaethol yr Urdd eleni trwy lunio rhaglen gyfrifiadurol i hwyluso holl drefniadau llety cymhleth yr ŵyl. Ymgynghorwyr cyfrifiadurol ydynt, ac yn rhedeg cwmni o'r enw 'Microdimensional'; ond ni chodwyd tâl ar yr Urdd am y rhaglen oherwydd bod eu plant, Gareth a Rhian (sy'n ddisgybl yn Ysgol Glantaf), wedi elwa gymaint o fod yn aelodau o'r Urdd, fel Alwen (sy'n hanu o Aberystwyth) o'u blaen.

## DINASYDDION BYD TELEDU

### Byd Rygbi

Mae'n dda gweld nifer o'n dinasyddion yn chwarae rhannau amlwg ym myd teledu. Gan fod S4C yn mynd i fod yn gyfrifol am fwy a mwy o raglenni rygbi byw yn y dyfodol, mae'n naturiol y bydd mwy o alw ar chwaraewyr i ddweud eu barn yn ogystal â chwarae. Un o'r rhai hynny yw Rob Howley sy'n chwarae i Glwb Rygbi Caerdydd.



Rob Howley, un o'n sêr rygbi disgleiriaf

### Byd Eisteddfod Llangollen

Mae Eisteddfod Gydwladol Llangollen 1997 yn hanes erbyn hyn, ond un a fu'n flaenllaw'n disgrifio'r gweithgareddau oedd Beca Evans, un o gyn-ddisgyblion Ysgol Gyfun Glantaf, sydd wedi gwneud gwaith da ym myd teledu ers blynyddoedd.



*Llun:* Beca Evans

### Byd Eisteddfod Genedlaethol Meirion a'r Cylch

Fydd pawb ddim yn medru mynd i'r Eisteddfod Genedlaethol yn y Bala a thri o'r rhai fydd yn dod â hwyl yr wyl iddyn nhw fydd Huw Llywelyn Davies, Beti George a Dewi Llwyd. Mae'r ddau gyntaf yn ddinasyddion brwd ers blynyddoedd ac er bod Dewi Llwyd yn byw ym Mangor mae'n teithio i lawr i Gaerdydd i weithio'n rheolaidd.

### Byd yr Ifainc

Mae S4C yn ymwybodol iawn na fydd dyfodol i'r sianel oni thelir sylw cyson i'r ifanc. Ymhlith cyflwynwyr y rhaglen gerddoriaeth ysgafn boblogaidd y mae Sioned Roberts a Tom Raybould.

Cafodd Tom ei eni yng Nghaerdydd ac fe fu ei dad, Bill Raybould, yn chwarae rygbi dros Gymru ac yn ddarlithydd am flynyddoedd yng ngholeg Addysg Caerdydd. Cerddoriaeth yw byd Tom.

# Newyddion o'r Eglwysi... dan ofal Gwilym Dafydd

## Baner yr Urdd wedi cyrraedd Tyddewi

Yn ddiweddar yn *Y Dinesydd* soniwyd am y bwriad i gyflwyno hen faner Adran Ysgol Bechgyn Cathays o'r Urdd i ofal Eglwys Gadeiriol Tyddewi er cof am athro Cymraeg ysbrydoledig yr ysgol, W. C. Elvet Thomas, a oedd yn frodor o sir Benfro. Erbyn hyn cyflawnwyd y bwriad. Cludwyd y faner at yr allor gan y Parch. Maxwell Evans, Penarth, mewn seremoni arbennig yn Nhyddewi ar 10 Mai. Yn ôl George Noakes, cyn-Archesgob Cymru a chyn-ficer Eglwys Dewi Sant, Caerdydd, yr oedd y faner yn symbol o frwydr a enillwyd – nid o frwydr filwrol, fel sy'n wir am y baneri a gyflwynir i eglwysi yn arferol, ond o frwydr ddiwylliannol yn enw Cymru.



Elvet Thomas yn derbyn y faner oddi wrth Maxwell Evans yn Eglwys Gadeiriol Tyddewi, ddydd Sul, 14 Ebrill 1940. Y ddau arall yn y llun yw Roy Saunders ac Alan Greedy.

Maxwell Evans a fu'n gyfrifol hefyd am gludo'r faner i mewn i'r Eglwys Gadeiriol pan gafodd ei chysegru yn Nhyddewi yn wreiddiol, yn ôl yn Ebrill 1940. Cynhwyswyd llun o'r disgyblion o Ysgol Cathays a fu'n pererindota o Gaerdydd i Dyddewi yr adeg honno yn rhifyn Ebrill/Mai'r *Dinesydd*. Dyma yn awr ddau lun arall o'r pererinion.



Bore cynta'r pererindod: galw heibio i Blas y Fotffordd, Caerffili.

## Y Parch. Mary Evans

Yn rhifyn diwetha'r *Dinesydd*, soniwyd bod cyfarfodydd Cymraeg wedi eu cynnal yn achlysurol yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn hen gapel Bethesda'r Fro. Un o'r rhai a fu'n gyfrifol am eu trefnu oedd y Parch. Mary Evans, a fu farw yn sydyn ganol Mehefin yn 76 oed yn ei chartref yn Nhrelái.

Ganed Miss Evans ar fferm ger Tresimwn (*Bonvilston*) a pherthynai i un o hen deuluoedd Bro Morgannwg. Ar y naill ochr i'r teulu yr oedd yn ddisgynnydd i'r emynydd enwog o'r ddeunawfed ganrif, Thomas William, Bethesda'r Fro. Ar ochr arall y teulu, yr oedd yn ddisgynnydd i John Morgan ('Ioan Trithyd'), yr olaf o gynheiliaid traddodiad barddol Cymraeg y Fro, a fu farw yn 1930.

Yr oedd Miss Evans yn un o ddisgyblion prifathro blaengar Ysgol Gynradd Sain Nicolas, D. T. Jenkins, yn y cyfnod rhwng y ddau ryfel byd pan drodd yr ysgol honno yn ysgol Gymraeg ei chyfrwng; ac ar ôl iddi ymddeol aeth ati i geisio adennill ei Chymraeg.

## T J RHYS JONES

Salm i ddiolch am fywyd T J Rhys Jones, a fu farw 24 Mai 1997, yn 80 mlwydd oed. Awdur *Teach Yourself Welsh;* darlithydd ac athro Ysgol Sul; cyfaill a Christion.

Ti oet gawr mawr, mwyn,
Y cadarnaf a'r addfwynaf fu.
Ti oedd ein tŵr,
Ein cefn ymhob cyfyngder,
Ein cyfaill ymhob cur.

Roedd serenedd a chynghanedd a chân
Yn llenwi dy fywyd â llawenydd,
Fel ffynnon yn goferu,
A ninnau'n cael profi peth o'r blas.

Ti oedd Platon ein hiaith a'n llên,
Y dysgedicaf ohonom,
Yn gwisgo dy ddysg â mawr wyleidd-dra.
Ti oedd ein hathro hoff a'n hysbrydoliaeth,
Ein pen athronydd a'n diwinydd doeth.
Pan grwydrem ar gyfeiliorn
Mewn môr o eiriau,
Ti oedd ein goleudy yn y gwyll
I'n harwain yn ôl at y Gair.

Ti oet dad annwyl dy blant,
Ti oet galon Eilonwy;
A hebot ti mwy,
Gwag yw'r tŷ.

Ciliaist o'n mysg ym mwynder Mai,
Mor dawel â thes y glennydd.
Ond pan welaf flodau drain gwynion ar y berth
Ac arogli persawr y gwyddfid mewn gardd,
Gwelaf hefyd dy harddwch di
Yn ail-egino, megis gwanwyn;
Daw gair a gwên yn ôl i gof,
A byddi fyw byth ynom ni,
Yn rhan o hyfrydwch yr haf.

*Robin Gwyndaf*

**Yn ddiweddar** cynhaliwyd bore coffi yn festri Tabernacl, Yr Ais, dan nawdd gwragedd eglwysi Cymraeg Caerdydd, a chodwyd dros £1000 tuag at Gymorth Cristnogol.

## Gŵyl Gorawl Esgobaeth Llandaf

Cynhaliwyd Gŵyl Gorawl Esgobaeth Llandaf eleni yn yr Eglwys Gadeiriol, Llandaf, ddechrau Gorffennaf. Daeth aelodau o eglwysi Cymraeg yr esgobaeth at ei gilydd ar gyfer y gwasanaeth blynyddol hwn. Y Gwir Barchedig Rowan Williams, Esgob Mynwy, oedd yn pregethu. Roedd yn braf gweld disgyblion o Ysgol Gymraeg Pen-cae yn chwarae rhan mor hyfryd yn y gwasanaeth.

# YSGOL GLANTAF

## Merched yn astudio Peirianneg

Dewiswyd 14 o ferched Ysgol Glantaf i ymweld ag Adran Beirianneg y Brifysgol yng Nghaerdydd yn ddiweddar. Trefnwyd yr ymweliad i ferched wyth o ysgolion y sir. Roedd yr ymweliad yn rhan o gynllun WISE, sef 'Women Into Science and Engineering'. A'r amcan? - i ddenu mwy o ferched i astudio peirianneg yn y Brifysgol. Trefnwyd y merched mewn grwpiau ar ddechrau'r dydd â merched Glantaf yn ymuno â merched o Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd.

Yn gyntaf aeth ein grŵp ni i geisio'r 'We Fyd-Eang', cwis a baratowyd gan diwtoriaid yn y Brifysgol. Roedd llawer o gwestiynau gwahanol ac roedd hi'n anodd dod o hyd i'r atebion ar y We. Yn y diwedd sgoriodd ein grŵp ni 15 o farciau allan o 30. Ar ôl y cwis aeth ein grŵp i weld arddangosfa technoleg ac yna i wylio fideo byr. Roedd y fideo yn dangos cyfweliadau â merched sydd ar hyn o bryd yn fyfyrwyr yn yr Adran Beirianneg. Roedd yn ddiddorol iawn.

Am 12 o'r gloch aethom i gyd i gael bwffe a drefnwyd gan y Brifysgol. Roedd llawer o amrywiaeth yn y bwyd ac roedd yn neis iawn!! Ar ôl cinio aethom yn ôl at ein gwaith - ac at y trydydd gweithgaredd. Ein sialens nesaf oedd Cystadleuaeth Cynllunio ac Adeiladu. Gofynnwyd i grwpiau bychan o bedair gynllunio bocs bychan i gludo wy. Yr her oedd i ddyfeisio bocs a fyddai'n gwarchod yr wy wrth ollwng y bocs o uchder o un metr.

Ar ôl llawer o gynllunio a sawl llanast, ein grŵp ni allan o'r holl ysgolion - grŵp Catrin, Frances, Janine a Lowri - oedd yn fuddugol. Ein gwobrau oedd llyfrnodau a chrysau T a logo'r Brifysgol arnynt.

Gweithgaredd olaf y dydd oedd CAD - 'computer aided design'. Y sialens oedd dyfeisio car ar sgrîn cyfrifiadur gan ddefnyddio cyfarwyddiadau arbennig. Roedd yn anodd iawn ond eto roedd yn gyffrous i weld y cynllun wedi ei orffen. Ar ddiwedd y prynhawn aethom yn ôl i'r Swyddfa Ddylunio lle roedd yr holl ferched wedi ymgasglu. Dywedodd Pennaeth yr Adran ychydig o eiriau o ddiolch am gyfraniad pawb i'r diwrnod a chyflwynwyd y crysau T i'n grŵp ni. Aeth pawb nôl i'w hysgolion â thystysgrif ac atgofion o ddiwrnod pleserus, cyffrous a diddorol iawn.

*Catrin Williams a Frances Kelly*
Blwyddyn 8, Ysgol Glantaf

## FFARWELIO

Daeth yr amser unwaith eto i ffarwelio â rhai o athrawon Glantaf. Ymddeol yn gynnar ar ôl blynyddoedd o wasanaeth gwerthfawr fydd Mrs Meinwen Guy, Adran y Gymraeg; Mrs Bethan Lewis, pennaeth yr Adran Ffrangeg; Mrs Eluned Norton, yr Adran Technoleg a Mrs Eleri Rogers, yr Adran Saesneg. Dymunwn iddynt ymddeoliad hir a dedwydd. Ymgymryd â swydd newydd yn Ysgol Sant Cyres, Penarth a wna Mr Eric Davies, pennaeth Mathemateg yr ysgol. Dymunwn yn dda iddo yn ei ysgol newydd. Dymunwn yn dda hefyd i Mr Peter Manning, pennaeth Addysg Gorfforol yr ysgol wrth iddo dderbyn swydd gyda Chlwb Rygbi Caerdydd. Ffarweliwn hefyd â Mr Mark Foster, yr Adran Anghenion Arbennig a dymunwn yn dda i Mr Emile Edwards wrth iddo ddechrau ar ei swydd fel pennaeth yr Adran Technoleg yn Ysgol Porth-tywyn.

## Landerneau


Bethan Nia Thomas a enillodd yr unawd telyn dan 15 yn Eisteddfod Islwyn.

Mae'r cysylltiad rhwng Glantaf a Landerneau bellach yn un clòs iawn. Mae'r ysgol wedi bod yn ymweld â'r dref yn Llydaw dros yr un mlynedd ar ddeg diwethaf. Mrs Bethan Lewis, sydd newydd ymddeol fel pennaeth Adran Ffrangeg Glantaf, fu'n gyfrifol am feithrin y cysylltiad. Eleni aeth 34 o ddisgyblion blwyddyn 10 i aros gyda theuluoedd ac roedd hyn wrth gwrs yn rhoi cyfle gwych iddynt ymarfer siarad Ffrangeg. Cafwyd cyfle hefyd i weld tipyn o'r wlad ac ymweld â llefydd fel Quimper, Concarneau, Brest a Mont St Michel. Mrs Delyth Williams, pennaeth newydd yr Adran Ffrangeg, Mr Iolo Jones a Mrs Siân Thomas fu'n gofalu am y plant yn ystod y daith lwyddiannus hon.


*Y criw a fu yn Landerneau*

## Llongyfarchion

Fe wnaeth Alexander Picton Jenkins, Caerffili (gynt o Riwbina) ac un o gyn-ddisgyblion Ysgol Uwchradd Glantaf, yn ardderchog yn ei arholiadau gradd ym Mhrifysgol Bryste eleni. Fe gafodd ddosbarth cyntaf mewn Mathemateg. Yng nghanol ei holl brysurdeb, mae Alex yn chwarae pêl-fasged yn gyson a bu'n gapten ac yn llywydd Clwb Pêl-fasged Prifysgol Bryste a hefyd yn hyfforddwr ac yn ddyfarnwr. Ac fel y mae'r llun hwn yn dangos mae'n cael amser hefyd i hamddena. Pob dymuniad da i Alex yn y dyfodol. Mae'r *Dinesydd* wedi clywed ei fod â'i fryd ar wneud gyrfa iddo'i hun ym myd cyfrifyddiaeth.


Alexander Picton Jenkins, BSc.

# EIN HYSGOLION CYNRADD CYMRAEG

**dan ofal B.D. Harries**

## Y Gymraeg yn Llanrhymni

Cawn yn *Y Dinesydd* gryn dipyn o wybodaeth am amrywiol weithgareddau Ysgolion Cymraeg y Sir. Ond, cyhuddir ni gan rai o anwybyddu'r maes ail-iaith, a hynny pan yw nifer o ddatblygiadau diddorol yn digwydd yn y maes hwnnw.



*Llun: Robin Griffith*

Un o'r rhai mwyaf diddorol, mae'n siŵr, yw'r hyn sy'n digwydd yn Ysgol Fabanod Glan yr Afon ym mhen draw Llanrhymni drwy gefnogaeth nifer o unigolion ac asiantau gan gynnwys y brifathrawes, Mrs J. Gold, Addysg Gymunedol a Choleg Glan Hafren.

Yno, bob bore Llun, daw tua 19 o famau ynghyd i ddysgu Cymraeg dan arweiniad eu tiwtor, Mrs Carol Bradley. Mae mwy nag un rheswm am yr ymrwymiad yma ar ran y mamau. Y prif un, mae'n debyg, yw eu hawydd a'u penderfyniad i fod o gymorth i'w plant wrth iddynt hwythau ddysgu Cymraeg, nifer dda ohonynt yn mynychu ysgolion Cymraeg a'r lleill yn dysgu'r Gymraeg fel ail-iaith yn ôl gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol. Felly, yn y gwersi canolbwyntir ar yr hyn y mae'r plant yn ei ddysgu yn eu gwersi hwy a cheisir creu yr un awyrgylch anffurfiol, hwyliog ag a geir bellach mewn gwersi ail-iaith yn yr ysgolion cynradd.

Gobaith y mamau hyn, a'u tiwtor, yw y gallant yn y man ddod yn ddigon rhugl i fedru cyfathrebu ag oedolion. Nododd un Saesnes yn y dosbarth mai ei gobaith yw codi cywilydd ar ei theulu-yng-nghyfraith sy'n Gymry di-Gymraeg, a nododd mwy nag un fod arnynt bellach gywilydd nad ydynt yn medru iaith eu gwlad. Mae nifer ohonynt eisoes wedi llwyddo i gwblhau Lefel 1 Rhwydwaith y Coleg Agored.

Pleser oedd treulio orig fer gyda'r grŵp a chanfod eu brwdfrydedd amlwg a'u bwriad pendant i lwyddo, er mwyn eu plant, er eu mwyn eu hunain ac er mwyn yr iaith. Da oedd clywed y bydd y dosbarth yn parhau y flwyddyn nesaf, a bod gobaith y sefydlir dosbarthiadau tebyg mewn pum canolfan arall. Mae'n galonogol dros ben weld rhieni, nid yn gwrthwynebu dysgu Cymraeg i'w plant fel y gwelwyd yn aml yn y gorffennol, ond yn cefnogi hynny mewn ffordd mor bositif ac ymarferol.

*B.D. Harries*

## Prifathrawes newydd i Ysgol Mynydd Bychan

Mae dirprwy brifathrawes un o ysgolion cynradd mwyaf Caerdydd wedi'i hapwyntio yn brifathrawes Ysgol Gynradd Gymraeg y Mynydd Bychan.

Wedi cyfnodau yn dysgu yn ysgolion cynradd Heol Llanisien Fach, Bryntaf a Rhydypennau, mae Mrs Ann Williams wedi bod yn ddirprwy brifathrawes yn Ysgol Heol Kitchener ers deng mlynedd.

Fe'i ganed yng Nghwm Rhondda, ac roedd hi'n un o ddisgyblion cyntaf Ysgol Gymraeg Bryntaf yng Nghaerdydd. Fe'i haddysgwyd yng ngholegau Prifysgol Cymru yn Aberystwyth a Chaerdydd.

Mae'n aelod blaengar o Undeb Cenedlaethol yr Athrawon ac yn aelod o is-bwyllgor cyfleoedd cyfartal. Mae hefyd yn drysorydd y pwyllgor sy'n trefnu dathliadau dathlu hanner can mlynedd o addysg Gymraeg yn y brifddinas.

Yn briod a chanddi ddau o blant, mae'n ferch i D. Morgan Rees - curadur cyntaf yr Amgueddfa Diwydiant a Môr. Mae ei gŵr - Wyn Williams - yn ysgrifennydd Cymdeithas Dyfarnwyr Rygbi Caerdydd a'r Cylch. Bu ar un adeg yn ysgrifennydd Clwb Rygbi Cymry Caerdydd.

## Cydnabod Cymwynaswr y Plant

Cyflwynir Tlws Mary Vaughan Jones gan Gyngor Llyfrau Cymru bob tair blynedd am gyfraniad nodedig i faes llyfrau plant dros gyfnod o flynyddoedd.

Cyhoeddwyd mai enillydd y Tlws eleni yw Roger Boore, sylfaenydd a pherchennog Gwasg y Dref Wen. Bydd yn derbyn ei wobr mewn seremoni yn yr Hydref.

Gwasg arloesol yw Gwasg y Dref Wen, a sefydlwyd yn 1969 i ganolbwyntio ar gyhoeddi llyfrau plant o'r radd flaenaf. Rhan o weledigaeth Roger Boore o'r cychwyn cyntaf oedd sicrhau bod plant Cymru yn cael cyfle i ddarllen rhai o lyfrau gorau'r byd yn y Gymraeg, a bellach y mae gan y Wasg tua 400 teitl mewn print. Y mae'r cwmni hefyd yn arbenigo mewn cyhoeddi llyfrau i ddysgwyr.



*Roger Boore*

Gwasg deuluol yw Gwasg y Dref Wen, gyda'i wraig, Anne, a'i feibion, Gwilym ac Alun, yn cynorthwyo Roger i redeg y busnes o'u cartref yn Heol yr Eglwys, Yr Eglwys Newydd.

Un o Gaerdydd hefyd oedd enillydd blaenorol Tlws Mary Vaughan Jones, sef W. J. Jones, un o bileri'r *Dinesydd* dros y blynyddoedd.

# NEWYDDION YR URDD

# JAMBORI GENEDLAETHOL



Bore Gwener, 27 Mehefin ymgasglodd 10,000 o blant o bob cwr o Gymru i Gastell Caerdydd i gymryd rhan mewn Jambori a gorymdaith i lawr i Fae Caerdydd i ddathlu pen-blwydd yr Urdd yn 75 mlwydd oed. Cafwyd diwrnod bythgofiadwy gan ddechrau efo 'Roadshow' Radio Cymru yng Nghastell Caerdydd dan arweiniad Dafydd Du efo Sobin a'r Smaeliaid, Eden a'r Moniars. Dechreuwyd yr orymdaith am 11.30 a.m. o'r castell gan Faer Caerdydd, y Cynghorydd Max Phillips, yn ogystal ag Ysgrifennydd Cymru, Ron Davies, a Chadeirydd yr Urdd Wynne Melville.



Ar hyd yr orymdaith roedd perfformwyr stryd, bandiau pres, dawnswyr gwerin, band taro, bagbibau, bandiau jazz a dawnswyr Affricanaidd. Ar ôl cyrraedd y Bae cafwyd Carioci enfawr dan arweiniad Dilwyn Price a Martin Geraint.

Hoffai'r Urdd yn Ne Morgannwg ddiolch i ysgolion Bro Eirwg, Treganna, Y Wern, Melin Gruffydd, Mynydd Bychan, Coed y Gof, Sant Baruc, Sant Curig, Pen-y-garth, Iolo Morganwg, Rhiwbina, Allensbank, Mount Stuart a Lansdowne am gefnogi'r Jambori.

**URDD GOBAITH CYMRU**
Swyddfa Talaith De Ddwyrain Cymru
Lleoliad: Canolfan yr Urdd, Caerdydd.
Yn eisiau o 1 Medi:
**SWYDDOG GWEINYDDOL LLAWN AMSER**
(Gellir ystyried oriau hyblyg)
**Dyddiad cau: 31 Gorffennaf, 1997.**
Os am ffurflen gais a disgrifiad o'r swydd cysylltwch â:
Siân Jobbins, Canolfan yr Urdd, Heol Conwy,
Treganna, Caerdydd. Ffôn: 01222 236201



# Gweithgareddau Haf yr Urdd



**DIWRNOD CERDDED CEUNANT**
Dydd Llun, 28 Gorffennaf ym Mannau Brycheiniog
11am - 5pm Blwyddyn 5, 6 a 7

**DIWRNOD MERLOTA**
Dydd Iau, 31 Gorffennaf yn Y Fenni
8.45am-4.15pm Blwyddyn 5, 6 a 7



**CWRS CANWIO A BORDHWYLIO**
Dydd Llun, 4 Awst yn Nolygaer, Morgannwg Ganol
9am - 5pm Blwyddyn 5, 6 a 7





**CWRS PÊL-DROED**
Dydd Mawrth, 5 Awst yng Ngerddi Soffia
10.30am - 3.30pm Blwyddyn 4, 5, 6 a 7

**CWRS PÊL-FASGED gyda Chris Harper o Cardiff Phoenix**
Dydd Mawrth, 12 Awst yng Ngerddi Soffia - 10.30am - 3.30pm
Blwyddyn 4, 5, 6 a 7



**DIWRNOD BEICIO MYNYDD**
Dydd Iau, 14 Awst ym Mannau Brycheiniog
11am - 5pm Blwyddyn 5, 6 a 7

# Y CAMPAU dan ofal Thomas Davies




## MORGANNWG

Mae hi'n anodd weithiau gael hyd i destun ar gyfer y llith hon, gan gofio bod cryn amser rhwng yr ysgrifennu a'r ymddangos - ond nid y tro hwn. Y dydd Sadwrn cyn imi lenwi fy ysgrifbin ac eistedd ar fore glawog ganol Mehefin, yr oedd Morgannwg wedi colli o fatiad a saith rhediad yng Ngerddi Soffia'n erbyn Middlesex, ac nid colli'n unig ysywaeth. Batiodd Morgannwg gyntaf a sgorio 280 (ar ôl colli y tair wiced gyntaf am 26 rhediad).

Robert Croft (82) a'r capten, Mathew Maynard (59), oedd yn bennaf gyfrifol am y cyfanrif parchus hwnnw, a chyn cinio ar y trydydd diwrnod, sef y dydd Sadwrn hwnnw, yr oedd Middlesex yn 278 am 9. Bu partneriaeth wedyn rhwng y ddau fatiwr olaf, Tufnell a Hewitt, o 41, a dechreuodd Morgannwg eu hail fatiad am chwarter wedi dau, 38 yn unig y tu ôl i'r ymwelwyr. Bu cryn drafod ymhlith y gwylwyr ynglŷn â phryd y gallent gau'r batiad a gosod nod call i Middlesex; gwyddai pob un ohonom na fyddai Steve James, Hugh Morris ac Adrian Dale yn colli eu wicedi am 26 rhediad drachefn. Cau tua chanol dydd Llun efallai? Ie, rywbryd felly. Ni fu'n rhaid i'r capten bendroni am bryd y dylai gau'r batiad oherwydd ar ôl hanner can munud cwympodd wiced olaf Morgannwg pan gafodd Jamie Hewitt ei chweched wiced am 14 rhediad. 31 oedd y sgôr, cyfanrif cyfartal â thrydydd isaf y sir yn ei hanes. Barn Don Shepherd oedd mai dyna'r isaf ar lain dda. Yn rhyfedd iawn, gornest nesaf Morgannwg yn y Bencampwriaeth oedd ar y maes lle cawsant eu sgôr isaf erioed - 22 yn Lerpwl yn 1924 yn erbyn Sir Gaerhirfryn.

Ni allai neb gynnig esboniad am y gyflafan, er i rai amau effaith y rholiad trwm cyn i Forgannwg ddechrau; buasai'r llain yn ddigon tawel yn ystod partneriaeth Tufnell a Hewitt, ond cadwai'r bêl yn isel a bu chwech allan goes o flaen wiced. Tolciwyd ein gobaith o fod yn Bencampwyr; ar ôl bod yn gyntaf ddechrau Mehefin, chweched oedd Morgannwg cyn ymweld â Lerpwl. Amharwyd ar y chwarae'r diwrnod cyntaf yn erbyn Sir Gaerhirfryn, ond o leiaf cafodd y tîm gyfle i fwrw atgofion y Sadwrn blaenorol o'r neilltu pan sgoriwyd 173 am 1 oddi ar hanner can pelawd a dwy belen. Ailafaelodd Steve James ynddi wrth sgorio 99, er i Hugh Morris golli ei wiced am 24 - faint a gâi James a Dale i ychwanegu at eu partneriaeth o 111 ar y diwrnod byr cyntaf hwnnw?

Yr wythnos honno y clywsom y byddai Awstralia yn chwarae Seland Newydd yng Ngerddi Soffia, 20 Mai, 1999, yng Nghwpan y Byd. Dyma'r gystadleuaeth a ddechreuodd yn 1975 pan gurodd Gwledydd Môr y Caribî Awstralia yn y Rownd Derfynol. Mae 50 pelawd y batiad, a bydd deuddeg gwlad yn cystadlu mewn dwy adran; yn Adran A bydd De Affrig, Sri Lanca, India, Simbabwe, Cenia a Lloegr, ac yn Adran B bydd Bangladesh, Seland Newydd, Gwledydd Môr y Caribî, Pacistan, Awstralia, ac o bawb, yr Alban.

Bûm i'n holi pam na fyddai gan Gymru dîm ond heb gael ateb boddhaol. Bydd yn rhaid inni sicrhau y byddwn ni'n cystadlu'r ganrif nesaf - ond bydd Senedd gennym erbyn 2003, oni fydd?

Erbyn 1999 efallai y bydd gennym Stadiwm Criced Cenedlaethol teilwng, beth bynnag am le yn y gystadleuaeth. Mae cynlluniau ar y gweill i ailwampio'r maes yng Ngerddi Soffia a chreu stadiwm ag wyth mil o seddau. Gwelais fodel ohono, a'r bwriad yw cael yr eisteddle â tho ochr Canolfan Chwaraeon i'r maes, a'r ysgol dan do lle'r mae'r bwrdd sgôr ar hyn o bryd. Ni wyddai neb yn y Clwb a fyddai'r arian ar gael ai peidio, ond yr oedd rhywfaint o hyder i'w deimlo. Braf fyddai agor y maes newydd â'r ornest honno rhwng Awstralia a Seland Newydd. Yn y cyfamser, mae gobaith y bydd ein Sir yn chwarae am y Bencampwriaeth ar y maes hwn yn erbyn Essex yng ngornest olaf y tymor ganol Medi. Rhaid cael ffydd...

*Thomas Davies*

### Croeso i'r Bae

Croeso cynnes i Rhian Anwen Roberts i'n plith. Dymunwn yn dda iddi yn ei swydd yn gyd-gysylltydd cynllun Canolfan y Mileniwm ym Mae Caerdydd. Mae'n hanu o Rosllannerchrugog a bu'n ddisgybl yn Ysgol Morgan Llwyd a Choleg Iwerydd cyn mynd i Gaer-grawnt.

### Gwnewch bopeth yn Gymraeg

Bu côr o Siapan ym Mhrydain yn ddiweddar a thra'n ymweld â Chymru bu'n canu nifer o ganeuon yn yr iaith Gymraeg. Rhiannon John, Llandaf a anfonodd y tâp angenrheidiol iddynt fedru canu yn iaith y nefoedd. Bu derbyniad iddynt dan nawdd Awdurdod Datblygu Cymru yn yr Amgueddfa Genedlaethol. Cawsant eu croesawu gan John a Ray Phillips, Arglwydd Faer a Maeres Caerdydd.

### Croeso'n ôl

Croeso'n ôl i Gaerdydd i Wyn Innes a'i deulu o Lundain wedi i Wyn dderbyn swydd gydag S4C yn Llanisien. Mae Jane, gwraig Wyn, yn hanu o Iwerddon ac yn gyfrifydd wrth ei galwedigaeth. Mae nawr yn teimlo y dylai gyflawni un gamp arall fel y gall ddarllen *Y Dinesydd* yn y man, sef dysgu sut i siarad Cymraeg!

### Hostel newydd?

Mae Siôn Llywelyn o Heol Moy, Y Rhath, a fu'n llywydd y myfyrwyr ym Mhrifysgol Cymru, Caerdydd yn ceisio agor hostel newydd ryngwladol yn y ddinas i bobl sy'n teithio o gwmpas y byd â *rucksacks* ar eu cefnau. Cafodd y syniad ar ôl iddo ef deithio i wahanol rannau o'r byd gan gynnwys Patagonia. Does dim darpariaeth o'r fath yng Nghaerdydd ar hyn o bryd.

### Sinema'r Monico

Mae sinema'r Monico - yr unig sinema annibynnol sydd ar ôl yng Nghaerdydd - sy'n eiddo i Brian Bull, yn dathlu ei phen-blwydd yn drigain oed eleni. Y ffilm gyntaf i'w dangos pan agorodd yn Ebrill 1937 oedd *The Bengal Tiger*. I ddathlu'r achlysur eleni dangoswyd *The English Patient*. Bu'r sinema hon yn gyrchfan i blant yr ardal bob bore Sadwrn am flynyddoedd. Mae'n nodedig am ddangos ffilmiau diweddar. Pen-blwydd hapus i'r Monico, felly!

### Tabernacl, Yr Ais

Y mae'r Tabernacl wedi derbyn £1000 oddi wrth Gyngor y Ddinas i'w cynorthwyo i wneud nifer o welliannau, gan gynnwys gwaith cynnal a chadw ar y to ac ar flaen yr adeilad.

# Dysgwyr y Ddinas

dan ofal Gareth Kiff

Mae'r haf yn gallu bod yn amser eitha tawel i bobl sy'n dysgu Cymraeg ac weithiau mae'n haws aros yn yr ardd neu fynd allan gyda ffrindiau yn hytrach na gweithio ar eich Cymraeg!

Wrth gwrs pan ddaw'r hydref mae llawer o ddysgwyr yn ffeindio eu bod nhw wedi colli neu wedi anghofio llawer o'u Cymraeg. Felly y neges yw: Peidiwch â bod yn ddiog dros yr haf! Does dim rhaid i chi weithio bob dydd ond bydd tipyn bach bob wythnos yn sicrhau eich bod chi ddim yn anghofio gormod. Beth am fynd ar gwrs preswyl ar eich pen eich hunan neu hyd yn oed gyda'r teulu?

Mae llawer o gyrsiau preswyl trwy Gymru. Ffoniwch Yr Uned Iaith (CBAC) ar (01222) 265007 a gofyn am y pamffledyn 'Cyrsiau Haf a Phreswyl'. Cofiwch ofyn yn eich canolfan leol am restr o gyrsiau a gynhelir dros yr haf a ble a phryd cynhelir Ysgolion Undydd yn eich ardal chi.

Felly daliwch ati ac wrth gwrs cofiwch fwynhau eich gwyliau hefyd!

## CYRSIAU ADOLYGU DROS YR HAF

Bydd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn cynnal dosbarthiadau adolygu unwaith yr wythnos (yn y nos) yng Nghaerdydd ar gyfer dysgwyr o bob lefel. Dyma'r cyfle i barhau gyda'ch gwaith a chael peint bach tawel ar ôl y dosbarth! Am ragor o fanylion cysylltwch â Robat ap Tomos (01222) 486469.

## LLWYDDIANT WYTHNOS CODI YMWYBYDDIAETH Y GYMRAEG

Roedd llawer o bobl wedi cymryd rhan yn yr wythnos hon ac wedi mwynhau'r gweithgareddau gwahanol. Llongyfarchiadau i bawb oedd wedi sicrhau llwyddiant ysgubol yr wythnos. Mae'n siŵr bod llawer mwy o bobl wedi gweld pwysigrwydd y Gymraeg yn ardal Caerdydd ar ôl yr wythnos gyffrous hon.

---

Bu nifer o ddisgyblion sy'n astudio'r Gymraeg fel ail iaith yn Ysgol Fitzalan ar ymweliad ag ardal Dulyn yn ddiweddar. Yn ôl eu hathrawes Gymraeg, Sarah Davies, y bwriad oedd codi eu hymwybyddiaeth o debygrwydd diwylliannol Cymru ac Iwerddon. Yr oedd un o'r disgyblion, Vicky Bennett, yn siarad dros bawb pan ddywedodd ei bod wedi mwynhau'r profiad ac wedi dysgu llawer.

## DYDDIADUR DIGWYDDIADAU - CAERDYDD A'R FRO

| | |
|---|---|
| **Pob dydd Mercher** 12.00 - 2.00pm | Clwb Coffi, Clwb Ifor Bach, Stryd Womanby, Caerdydd Ffoniwch Christine Franks 01222 513046. |
| **Pob nos Iau** 9.15pm | Siawns i gael peint (neu sudd oren os ydych chi'n gyrru) a siarad llawer o Gymraeg (gobeithio)! Lolfa Gwesty Parc y Rhath (*Roath Park Hotel*), Heol y Plwca (*City Road*). |
| **Pob bore Gwener** 9.45 - 11.45am | Clwb Coffi y Barri, Canolfan Palmerston Christine Franks 01222 513046. |
| **Pob dydd Gwener** 1.00pm - 3.00pm | Clwb Coffi Treganna, Canolfan yr Urdd, Heol Conwy, Caerdydd. Ffoniwch Christine Franks 01222 513046. |
| **Pob bore Sadwrn** 10.45am | Cyfle arall i ymarfer eich Cymraeg dros baned yn Festri'r Tabernacl, Yr Ais (*The Hayes*), Caerdydd. |
| **Pob bore Sadwrn** 11.00am - 2.00pm | Clwb Sadwrn ACEN: cyfle i ymarfer eich Cymraeg a chwrdd â ffrindiau newydd. Ffoniwch Rhun ar 01222 665455 am fanylion. |
| **Yn ôl y galw** | Cymorthfeydd. Y cyfle i ddysgwyr neu diwtoriaid drafod eu problemau gyda gwaith neu gyrsiau. Ffoniwch Gill Stephen 01222 250439. |

Am fanylion pellach ynglŷn â chyrsiau Cymraeg cysylltwch â GILL STEPHEN Tiwtor-Drefnydd Consortiwm Dysgu Cymraeg i Oedolion Caerdydd a'r Fro yng Ngholeg Glan Hafren, Y Parêd, Caerdydd (01222) 250439.

## SS HIRAETH YN CYRRAEDD YR OCHR DRAW

### Parhad o anturiaethau Alan Greedy

Roedd y tywydd yn cynhesu bob dydd, y dolffiniaid yn amlhau, a'r pysgod hedegog yn dod o hyd i'r badell ffrïo bob bore.

Ac ar ôl deunaw diwrnod, lithrodd angor *Hiraeth* i lawr i dywod Bae Carlise yn Barbados, a dyna fi wedi croesi fy môr mawr cynta - un o'r teithiau cyflymaf erioed ar y pryd.

Ar ôl glanio ar y traeth, gwelais y llong fananas *Geestbay* yn cyrraedd yn syth o'r Barri, ac ymhen hanner awr roeddwn yn mwynhau brecwast anarferol o hael gyda Chris Watler, un o 'nghyfeillion ar y llong.

Ar ôl pedwar diwrnod yn Barbados, hwyliais gyda'r gwynt i Ynys y Perlysiau - Grenada - a glanio ym mhorthladd St George's, sy'n llawn haeddu cael ei adnabod fel porthladd harddaf y Caribî.

Ychydig cyn i mi gyrraedd, roedd y Prifweinidog, Maurice Bishop, wedi ei lofruddio gan rai o'i gyd-weinidogion, ac America wedi anfon milwyr i'r ynys i adfer cyfraith a threfn. Cyfaddefodd Uchel Gomisiynydd Prydain wrthyf nad oedd y Tŷ Gwyn yn Washington wedi sylweddoli mai'r Frenhines Elizabeth II oedd Pennaeth Gwladol Grenada er bod y wlad yn annibynnol!

Trefnwyd bod Ronald Reagan yn ymweld â'r ynys, a dosbarthwyd cannoedd o grysau-T "I love Reagan" ymhlith y bobol, lawer ohonyn nhw heb gael crys ar eu cefnau erioed. Gorchmynnwyd ni i glirio'n cychod o'r harbwr, ac yn lle'r porthladd lliwgar, prysur arferol, roedd y lle'n drwsiadus ac yn dawel ar gyfer yr Arlywydd. A'r eiddoch yn gywir oedd yr unig un heb grys-T Americanaidd ar ei gefn.

Yn fuan ar ôl cyrraedd, roedd crwt bach lleol yn ei arddegau cynnar wedi dechrau taro heibio o dro i dro i wneud mân dasgau. Roedd yn well gan Ricky fod o gwmpas y cychod nag yn yr ysgol, yn amlwg. Dychwelais o'r dref ryw ddiwrnod a gweld bod Ricky wedi ceisio gwneud barcut o'r Ddraig Goch a honno wedi dal yn yr offeryn gwynt, a hwnnw wedyn yn methu chargio'r batris. Dro arall, penderfynodd Ricky ei fod am goginio reis i mi 'a la Grenada'. Treuliais innau oriau lawer wedyn yn clirio'r reis o bob cwr o'r cwch a phibau'r sinc!

CBAC WJEC

# SIOP LYFRAU

- CYN-BAPURAU, MEYSYDD LLAFUR
- CYHOEDDIADAU'R UNED IAITH
- LLYFRAU GOSOD TGAU A SAFON UWCH
- LLAWLYFRAU ASTUDIO
- CYHOEDDIADAU CILT
- ADNODDAU AR GYFER Y DYSGWYR
- CD-ROMS, FIDEOS A PHOSTERI
- ARCHEBION POST

**AR AGOR**
**LLUN - GWENER**
**9.00 a.m. - 5.00 p.m.**

245 Rhodfa'r Gorllewin, Llandaf, Caerdydd, CF5 2YX
Ffôn: (01222) 265063 (Cyhoeddiadau/Cyffredinol)
neu 265112 (Cyn-bapurau, Meysydd Llafur)
Ffacs: (01222) 575987

**J. A. HUGHES gyda**
**REES WOOD a TERRY**

## A ydych chi wedi cael **damwain?**

## Efallai y gallwch hawlio **iawndal?**

## Mae'r cyfweliad cyntaf **yn rhad ac am ddim.**

Cysylltwch â Rhys Ll. Thomas
01222 - 666222

AMGUEDDFEYDD AC ORIELAU CENEDLAETHOL CYMRU

# PROFWCH GYMRU MEWN DIWRNOD

yn

## AMGUEDDFA WERIN CYMRU SAIN FFAGAN

Dewch i ddarganfod dros 50 mlynedd o ddiwylliant wedi'i ailgreu gydag amrywiaeth o adeiladau dilys.
Gwyliwch y crefftwyr yn arddangos eu sgiliau.



**CYFLEUSTERAU I YMWELWYR**
**LLEFYDD I FWYTA**
**ANRHEGION A SWFENIRIAU CYMREIG**
**CYFLEUSTERAU I'R ANABL**
**PARCIO HELAETH DI-DÂL**
**FFÔN: (01222) 569441**

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA - CYNON - TAF

**Datblygu'r Gymraeg, Addysg Gymunedol**

# YN EISIAU

Tiwtoriaid Cymraeg i Oedolion ym Morgannwg - ar gyfer dosbarthiadau lefel 1, 2, 3 Rhwydwaith Coleg Agored (O.C.N.), Defnyddio'r Gymraeg (Uwch) yn ystod y dydd, gyda'r nos a dros y Sul.

Penodir 10 ymgeisydd llwyddiannus i bwll tiwtoriaid a chynigir cytundeb fel bo'r galw.

Cymwysterau angenrheidiol - tystysgrif dysgu, Cymraeg rhwydd naturiol, y gallu i gyfarthrebu ac ysbrydoli yn bwysicach na chymwysterau academaidd. Darperir hyfforddiant cyson.

Mae angen gwaed newydd yn y maes pwysig hwn.

Manylion pellach - Ffôn: 01443 842008

Ceisiadau trwy lythyr at:

**Colin Williams, Datblygu'r Gymraeg, 9 Llys Canol, Stâd Ddiwydiannol Trefforest, Pontypridd, CF37 5YL**

# GOFALU AM BLANT

Merch ifanc profiadol (NNEB) ar gael i ofalu am blant yn ei chartref yn Nhreganna, Caerdydd.

**Ffôn: 01222 - 343989**




# Llond cae o hwyl a chystadlu o'r Sioe

Bydd cyfle i grwydro'r cae a chwrdd â'r cymeriadau bob nos ar S4C.
O'r cobiau i'r cynnyrch, o'r bustych i'r blodau - mae'r cyfan yn Llanelwedd!

**Nos Lun - Nos Iau 21-24 Gorffennaf 8.00**
**Nos Sadwrn 26 Gorffennaf 7.15**

S4C